Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin ag Achosion Honedig o Dorri Protocol Lleol

20 MAI 2010

Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin ag Achosion Honedig o Dorri Protocol Lleol

Mynegai

		Rhif Tudalen
1.0	Cyflwyniad	2
2.0	Rôl y Swyddog Monitro	2
3.0	Camau gweithredu yn dilyn cael cwyn am aelod	3
4.0	Ystyriaethau cychwynnol	3
5.0	Camau gweithredu pan fo'r holl ddogfennaeth ar gael	5
6.0	Camau gweithredu pan fo penderfyniad wedi'i wneud	5
Atodiad 1		
Y weithdrefn		7
Cam 1: Cyfleu'r gŵyn		7
Cam 2: Datrys yn anffurfiol		7
Cam 3: Gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau		7
Materion Eraill		8

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Gweithdrefnau ar gyfer Ymdrin ag Achosion Honedig o Dorri Protocol Lleol

1.0 Cyflwyniad

1.1 Nid yw gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion honedig o dorri protocolau lleol yr Awdurdod mewn perthynas â chysylltiadau rhwng Aelodau a swyddogion a materion cynllunio'n ddarostyngedig i ddarpariaethau gorfodi Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. O ganlyniad, mae mwy o hyblygrwydd ar gael i'r Awdurdod o ran y gweithdrefnau y gall eu mabwysiadu ar gyfer ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â thorri'r protocolau hyn. Nod y gweithdrefnau yw ymdrin ag achosion honedig o dorri protocolau yn y modd mwyaf cost-effeithiol, gan leihau i'r eithaf unrhyw effaith ar adnoddau'r Awdurdod, a chan sicrhau ar yr un pryd nid dim ond bod y broses yn deg, yn agored ac yn gyfiawn, ond hefyd bod y partïon cysylltiedig yn cael ei bod felly.

2.0 Rôl y Swyddog Monitro

2.1 Mae'r Swyddog Monitro'n ganolog i weinyddu unrhyw ymateb i honiadau sy'n ymwneud â thorri protocolau'r Awdurdod, o ran defnyddio adnoddau'n effeithiol a sicrhau didueddrwydd y broses.

2.2 Mae angen i Swyddogion Monitro fod yn ymwybodol o'r achosion posibl o wrthdaro sy'n gysylltiedig â chynghori'r Pwyllgor Safonau a chynghori Aelodau.

2.3 Mae'n bwysig bod y Pwyllgor Safonau'n cael cyngor annibynnol o ansawdd uchel. Y Swyddog Monitro ddylai fod y prif gynghorydd i'r Pwyllgor Safonau, oni bai fod ganddo gysylltiad â'r mater a fyddai'n ei atal rhag cyflawni'r rôl hon yn annibynnol. Os yw'r sefyllfa hon yn codi, bydd y Swyddog Monitro'n trefnu bod y Dirprwy Swyddog Monitro'n cynghori'r Pwyllgor Safonau.

2.4 Wrth gynghori'r Pwyllgor Safonau, rôl y Swyddog Monitro neu gynghorydd cyfreithiol arall yw:

- gwneud yn siŵr bod aelodau'r Pwyllgor Safonau'n deall eu pwerau a'u gweithdrefnau;
- gwneud yn siŵr bod y weithdrefn benderfynu'n deg ac y bydd yn ei gwneud yn bosibl ymdrin â'r honiad mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
- gwneud yn siŵr bod yr Aelod y gwnaed yr honiad amdano'n deall y gweithdrefnau y bydd y Pwyllgor Safonau'n eu dilyn;
- rhoi cyngor cyfreithiol a gweithdrefnol i'r Pwyllgor Safonau yn ystod y gwrandawiad a'r trafodaethau; a
- helpu'r Pwyllgor Safonau i gynhyrchu penderfyniad ysgrifenedig a chrynodeb o'r penderfyniad hwnnw.

3.0 Camau gweithredu yn dilyn cael cwyn am aelod

3.1 Gall cwyn bod Aelod o'r Awdurdod wedi torri un o brotocolau lleol yr Awdurdod gael ei gwneud gan unrhyw Aelod arall, aelod o'r cyhoedd neu gan aelod o staff. Gellir cyfeirio cwynion o'r fath at un o Aelodau'r Awdurdod, neu un o swyddogion yr Awdurdod. Bydd pwy bynnag y cyflwynir y gŵyn iddo'n atgyfgeirio'r gŵyn ar unwaith at Swyddog Monitro'r Awdurdod. Os caiff y gŵyn ei chyfleu gan aelod arall o'r Awdurdod, bydd y weithdrefn a nodir yn Atodiad I yn berthnasol. Byddir yn ymdrin ag unrhyw gwynion eraill dan y weithdrefn ganlynol.

4.0 Ystyriaethau cychwynnol

Y nithiad cyntaf

4.1 Mae'r nithiad cyntaf yn cynnwys y camau canlynol:

a) Bydd y Swyddog Monitro'n atgyfeirio cwynion yn gyntaf at y Prif Weithredwr neu uwch reolwr arall a awdurdodwyd ganddo, a fydd yn asesu cwynion i ganfod unrhyw rai a allai fod yn flinderus neu'n ddibwys, neu na fyddent – ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd – yn gallu bod yn gyfystyr â thorri'r protocol. Bydd hyn yn gwarchod gallu'r Swyddog Monitro i roi cyngor cyfreithiol yn ystod unrhyw ystyriaeth ddilynol i achosion a allai fod yn angenrheidiol.

b) Lle tybir bod cwyn yn ddibwys neu'n flinderus, bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto.

c) Os gwrthodir y gŵyn ar y cam cychwynnol hwn, bydd yr Aelod yr oedd a wnelo'r gŵyn ag ef yn cael ei hysbysu ynghylch yr honiad, ond ni fydd yn cael gwybod pwy oedd yr achwynydd. Bydd y Swyddog Monitro'n cadw cofnod o'r gŵyn a'r camau gweithredu ac yn hysbysu'r Pwyllgor Safonau.

Tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad

4.2 Ym mhen arall y raddfa, gall y Prif Weithredwr ystyried bod tystiolaeth olwg gyntaf o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Yn yr achos hwn, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro, bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu bod y mater o fewn awdurdodaeth lwyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac y dylai'r achwynydd gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n dymuno canlyn arni â'r mater.

Achosion o dorri protocol

4.3 Gellir dod i benderfyniad mewn un o ddwy ffordd:

Penderfyniad trwy drafodaeth

4.3.1 Lle nad oes arwydd bod y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi cael ei dorri, bydd y Prif Weithredwr yn ystyried a ellid datrys y sefyllfa trwy drafodaeth gyda neu rhwng yr achwynydd (a rheolwr llinell yr achwynydd lle mae'r achwynydd yn aelod o staff yr Awdurdod), yr Aelod dan sylw, y Prif Weithredwr a, lle mae'r Prif Weithredwr yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol, Cadeirydd yr Awdurdod. Mae Protocol yr Awdurdod ar gyfer Cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion yn rhoi rhywfaint o arweiniad yn hyn o beth. Lle defnyddir y dull gweithredu hwn, bydd y bobl gysylltiedig yn cael eu hysbysu ar y cyfle cynharaf. Eto dim ond yn fras y bydd y Pwyllgor Safonau'n cael ei hysbysu ar y cam hwn.

4.3.2 Mewn achosion lle gellir datrys y mater trwy'r math o drafodaeth a nodir uchod bydd y Pwyllgor Safonau'n cael ei hysbysu ynghylch manylion yr achos ac unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohono ac yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i osgoi'r mater a arweiniodd at y gŵyn rhag digwydd eto.

4.3.3 Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried, yng ngoleuni materion sy'n digwydd dan yr adran hon, unrhyw angen posibl am gamau gweithredu mwy cyffredinol. Er enghraifft, os chwaraeodd camddealltwriaeth am yr hyn sy'n ofynnol dan y protocol ran yn yr achos o dorri'r protocol, gall y Swyddog Monitro gyflwyno cynigion i'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r angen i egluro'r protocol neu roi hyfforddiant ychwanegol i'r Aelod neu i Aelodau'n gyffredinol. Fel arall, os yw'r Swyddog Monitro'n ystyried bod yr achos yn datgelu diffygion ym mhrotocolau'r Awdurdod, bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried pa fesurau cywirol i'w rhoi ar waith.

Penderfyniad trwy gamau dilynol

4.3.4 Lle nad yw'n bosibl datrys y gŵyn trwy drafodaeth, bydd angen cymryd camau gweithredu i ganfod y ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r gŵyn ac i gymryd mesurau priodol i unioni'r sefyllfa lle y bo angen. Gall fod angen llawer iawn o adnoddau ar gyfer camau gweithredu o'r fath. Felly bydd y dull a fabwysiedir yn amcanu at gyfyngu i'r eithaf ar y gofynion o ran adnoddau, gan sicrhau ar yr un pryd bod y bobl gysylltiedig yn gweld bod y broses yn deg, yn agored ac yn gyfiawn.

4.3.5 Y cam cyntaf fydd bod yr achwynydd yn cael copi o'r papur hwn, fel arweiniad ynghylch ffurf y gweithdrefnau dilynol. Wedyn bydd y Swyddog Monitro'n gofyn i'r achwynydd ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ddogfennol i ategu'r gŵyn o fewn pythefnos, gan gynnwys unrhyw gadarnhad gan dystion, a chyfleu'r gŵyn mewn modd mor benodol â phosibl mewn perthynas â'r achos honedig o dorri protocol. Bydd y Swyddog Monitro'n ei gwneud yn glir i'r achwynydd y bydd y dystiolaeth ar gael i'r Aelod y mae a wnelo ag ef er mwyn iddo wneud sylwadau, ac i'r Pwyllgor Safonau, ac y gallai gael ei gwneud yn gyhoeddus.

4.3.6 Ar y cam hwn, bydd y Swyddog Monitro'n hysbysu'r Pwyllgor Safonau ar sail gyfrinachol, heb grybwyll enwau'r partïon cysylltiedig. Ni fydd aelodau'r Pwyllgor yn ceisio darganfod mwy o fanylion am y gŵyn ar eu menter eu hunain, yn anad dim gan y byddai hyn yn peryglu eu sefyllfa mewn unrhyw wrandawiad dilynol. Bydd y Swyddog Monitro'n hysbysu'r Aelod dan sylw hefyd bod cwyn wedi cael ei chyfleu, a'i fod wedi gofyn i'r achwynydd ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth y bydd copi ohonynt yn cael ei roi i'r Aelod pam fyddant ar gael.

4.3.7 Ar ôl i ddogfennaeth yr achwynydd ddod i law, bydd y Swyddog Monitro'n rhoi copi ohoni i'r Aelod dan sylw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddi ddod i law, ynghyd â chopi o'r adroddiad hwn, fel bod yr Aelod hefyd yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran y gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn. Bydd y Swyddog Monitro'n gofyn i'r Aelod ymateb i'r gŵyn yn ysgrifenedig o fewn pythefnos, a darparu pa bynnag ddogfennaeth a thystiolaeth berthnasol, gan gynnwys unrhyw gadarnhad sydd ar gael gan dystion, sy'n briodol yn ei farn ef ar gyfer y Swyddog Monitro.

4.3.8 Os yw'r Aelod y mae a wnelo'r gŵyn ag ef yn gwrthod cydweithredu â chais y Swyddog Monitro, ni fydd gan y Swyddog Monitro unrhyw bŵer i'w gwneud yn ofynnol cydweithredu yn y modd sy'n angenrheidiol i gwblhau ymateb derbyniol. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd y mater yn cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau i gael ei ystyried yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarperir gan yr achwynydd yn unig.

4.3.9 Dan amgylchiadau eithafol, gallai natur gwrthodiad i gydweithredu fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad er enghraifft mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â pharch tuag at eraill (para 4 o'r Cod) neu mewn perthynas â dwyn anfri ar yr Awdurdod (para 6 o'r Cod). Yma, gellid atgyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a byddai methiant parhaus i gydweithredu â'i ymchwiliad yntau heb esgus rhesymol yn drosedd.

5.0 Camau gweithredu pan fo'r holl ddogfennaeth ar gael

5.1 Pan fo'r holl ddogfennaeth berthnasol ar gael, bydd holl aelodau'r Pwyllgor Safonau'n cael copi o'r papurau a goladwyd gan y Swyddog Monitro, ynghyd â chyngor fel y bo'n briodol gan y Swyddog Monitro ynghylch y gŵyn. Bydd gwrandawiad gan y Pwyllgor Safonau'n cael ei gynnal wedyn i ystyried yr wybodaeth a phenderfynu a yw'r dystiolaeth yn dynodi y bu methiant i gydymffurfio â'r protocol. Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal o fewn dau fis i dderbyn gwybodaeth y partïon ar amser a dyddiad sy'n addas i'r achwynydd a'r Aelod dan sylw. **Lle bynnag y bo'n bosibl bydd 14 diwrnod o rybudd yn cael ei roi i'r achwynydd a'r aelod dan sylw. Bydd hawl gan y naill a'r llall i ddod â chyfaill neu gynrychiolydd arall gydag ef i'r gwrandawiad.** Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yng ngŵydd y cyhoedd fel arfer oni bai fod yr wybodaeth a fydd yn cael ei hystyried yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer esemptiad dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y Pwyllgor llawn yn cymryd rhan yn y gwrandawiad. Y nifer lleiaf posibl o aelodau o'r Pwyllgor er mwyn bod â chworwm fydd tri.

5.2 Bydd yr achwynydd yn cael y cyfle yn gyntaf i gyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth gan dystion, neu i adael i gynrychiolydd gyflwyno'r dystiolaeth, ar yr amod nad oedd y cynrychiolydd yn rhan o'r mater y mae a wnelo'r gŵyn ag ef. Wedyn bydd yr Aelod dan sylw neu ei gynrychiolydd yn cael y cyfle i holi'r achwynydd, unrhyw dystion ar ran yr achwynydd a chynrychiolydd yr achwynydd, ac ar ôl hynny gall aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i'r achwynydd, unrhyw dyst a chynrychiolydd yr achwynydd.

5.3 Wedyn bydd yr Aelod dan sylw'n cael cyfle i gyflwyno tystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth tystion, neu i adael i gynrychiolydd gyflwyno'r dystiolaeth, ar yr amod nad oedd y cynrychiolydd yn rhan o'r mater y mae a wnelo'r gŵyn ag ef. Wedyn bydd yr achwynydd (neu ei gynrychiolydd) yn gallu holi'r Aelod, unrhyw dystion ar ran yr Aelod a'r cynrychiolydd arall sy'n bresennol, ac ar ôl hynny bydd aelodau'r Pwyllgor yn cael yr un cyfle.

5.4 Bydd unrhyw ddefnydd o gynrychiolydd gan unrhyw barti yn digwydd ar draul y parti hwnnw. Ni fydd y Pwyllgor yn goddef unrhyw ymddygiad sy'n tarfu gan gynrychiolydd, tyst nac unrhyw barti i'r gwrandawiad. Bydd y Pwyllgor yn cadw'r hawl i gyfyngu ar nifer y tystion os yw'n ystyried bod y nifer yn afresymol.

5.5 Os yw'r naill barti neu'r llall yn methu â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, a hwythau wedi dynodi'n flaenorol eu bod yn bwriadu bod yn bresennol, bydd y Pwyllgor yn parhau â'r gwrandawiad oni bai ei fod wedi'i argyhoeddi bod rheswm da dros fethu â bod yn bresennol. Dan yr amgylchiadau hyn, gellir gohirio'r gwrandawiad.

5.6 Pan fo'r holl dystiolaeth wedi cael ei chlywed, bydd y Pwyllgor – ynghyd â'i ymgynghorydd cyfreithiol – yn torri i ystyried ei ganfyddiadau'n breifat. Ar ôl dod i benderfyniad, boed yn ddienw neu drwy fwyafrif, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei benderfyniad, y rhesymau sy'n sail iddo ac unrhyw argymhellion y mae'n bwriadu eu cyflwyno i'r Awdurdod.

6.0 Camau gweithredu pan fo penderfyniad wedi'i wneud

6.1 Lle mae'r Pwyllgor Safonau'n canfod na fu achos o dorri'r protocol, efallai na fydd angen camau gweithredu pellach. Serch hynny, gall y Pwyllgor Safonau ystyried a yw'n dymuno cyflwyno unrhyw argymhellion i'r Awdurdod ynghylch materion sy'n deillio o'r gŵyn megis egluro'r protocol neu hyfforddiant ychwanegol yn gyffredinol, neu o ran unrhyw wendid systemig canfyddadwy ym mhrotocolau'r Awdurdod.

6.2 Lle mae'r Pwyllgor Safonau'n dod i'r casgliad bod y protocol wedi cael ei dorri, gall gyflwyno argymhellion i'r Awdurdod ar gyfer gweithredu. Pan geir achosion mwy difrodol o dorri'r protocol, gall y Pwyllgor argymell bod yr Aelod yn cael cerydd; gall y Pwyllgor argymell hyfforddiant neu ail hyfforddiant hefyd, neu fod unrhyw wendid ym mhrotocolau'r Awdurdod yn cael eu cywiro. Gallai'r Awdurdod ystyried yr angen am weithdrefnau cymodi mewn rhai achosion hefyd.

6.3 Bydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried unrhyw angen am gyhoeddusrwydd hefyd ac yn cyflwyno argymhellion priodol i'r Awdurdod. Lle ceir nad yw Aelod y gwneir cwyn yn ei erbyn wedi torri'r protocol, bydd gan yr Aelod hwnnw yr hawl i'w gwneud yn ofynnol na ddylai unrhyw gyhoeddusrwydd ddilyn.

6.4 Bydd y Swyddog Monitro'n cadw ffeil achos o'r gwrandawiad, gan gynnwys y papurau cysylltiedig a chofnod ysgrifenedig byr o ganfyddiadau'r Pwyllgor Safonau, y rhesymau sylfaenol dros y penderfyniad ac unrhyw argymhellion a gyflwynir i'r Awdurdod.

Cwynion yn erbyn Aelodau gan Aelodau eraill

Byddir yn ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau gan Aelod arall/Aelodau eraill dan y weithdrefn tri cham canlynol.

Y weithdrefn

Cam Un o'r Weithdrefn: Cyfleu'r gŵyn

(i) Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y Protocol hwn anfon y gŵyn at y Swyddog Monitro. Wedi i'r gŵyn ddod i law bydd y Swyddog Monitro'n hysbysu a yw'r honiad yn un y dylid ymdrin ag ef dan y Protocol hwn ynteu a ddylai'r achwynydd ystyried atgyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon fel honiad sy'n ymwneud â thorri'r Cod Aelodau. Gall y Swyddog Monitro ddewis peidio ag ymdrin â'r honiad ar y cam hwn er mwyn gallu cynghori'r Pwyllgor yn hwyrach yn y broses, ac os felly bydd y Dirprwy Swyddog Monitro'n cynghori'r achwynydd.

(ii) Os ceisir datrysiad lleol dan y Protocol hwn yna byddai angen i'r holl bartïon dan sylw gytuno i beidio ag atgyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os ceir atgyfeiriad ffurfiol at yr Ombwdsmon yna mae deddfwriaeth a rheoliadau'n nodi sut y gall yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater hwnnw ac os yw'n briodol atgyfeirio canlyniad unrhyw ymchwiliad at y Pwyllgor Safonau fel bod y Pwyllgor yn gallu penderfynu ynghylch y gŵyn honno.

(iii) Yn dilyn y cam cyntaf, os yw'r Aelod yn dymuno parhau â'r honiad dan y weithdrefn hon, gellir atgyfeirio'r mater naill ai ar gyfer datrysiad anffurfiol dan Gam 2 neu at wrandawiad gan y Pwyllgor dan Gam 3.

Cam Dau o'r Weithdrefn: Datrys yn anffurfiol

Yng Ngham Dau, bydd y gŵyn (os yw'r ddau barti'n cytuno) yn cael ei hatgyfeirio at yr Aelod Eiriolwr presennol ar gyfer Datblygiad Aelodau neu (yn ei absenoldeb neu os yw'n methu â gweithredu am reswm arall) at Gadeirydd yr APC er mwyn iddo gysylltu â'r Aelod y gwneir y gŵyn yn ei erbyn i geisio datrys y mater yn anffurfiol.

(i) Gall yr Aelod Eiriolwr ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau wrthod ymgymryd â Cham 2 a chyda chydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor gall atgyfeirio'r gŵyn ar unwaith at Gam Tri.

(ii) Os oes angen, gall yr Aelod Eiriolwr ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad alw ar y Swyddog Monitro, y Dirprwy Swyddog Monitro neu swyddog cyfreithiol arall i gael cyngor a chynhorthwy.

Cam Tri o'r Weithdrefn: Gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Moeseg a Safonau

(i) Os yw'r naill barti neu'r llall yn dal i fod yn anfodlon ar Gam 2, yna gyda chydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor, mae trydydd cam y weithdrefn yn digwydd ar ffurf gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r Aelod sy'n cyfleu'r gŵyn

gyflwyno sylwedd y gŵyn yn ysgrifenedig, a bydd yn gofyn i'r Aelod y mae a wnelo'r gwyn honno ag ef am ymateb ysgrifenedig. Bydd y papurau hyn, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a gyflwynir gan y ddwy ochr, yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.

(ii) Mae gan yr Aelod sy'n cyfleu'r gŵyn a'r Aelod y cwynir yn ei erbyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Bydd gan y ddau ohonynt yr hawl i gael eu cynrychioli neu i fod â chydweithiwr yn bresennol. Ni fydd yr APC yn talu costau cynrychiolaeth.

(iii) Os yw'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio â bod yn bresennol neu'n methu â bod yn bresennol, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

(iv) Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed, bydd y Pwyllgor yn gofyn i'r ddwy ochr a'u cynrychiolwyr adael y Siambr a bydd y Pwyllgor yn dod i gasgliad ynghylch yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro neu'i gynrychiolydd ar gael i gynghori'r Pwyllgor.

(v) Gall y Pwyllgor ddod i un o dri chasgliad, sef:-

(a) Nad oes sail i'r gŵyn.
(b) Bod sail i'r gŵyn ond nad oes angen unrhyw gam gweithredu pellach.
(c) Bod sail i'r Gŵyn ac y dylai'r Aelod gael cerydd.

Bydd y casgliad gan y Pwyllgor yn cael ei wneud yn hysbys i'r APC. Hefyd, gall y Pwyllgor gyflwyno argymhellion i'r APC ynghylch newidiadau i unrhyw weithdrefnau neu gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

Materion Eraill

(i) Ni fydd unrhyw gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i enwau'r Aelodau dan sylw oni bai y penderfynir cadarnhau'r gŵyn ac y dylai'r Aelod gael cerydd. Bydd y gwrandawiad gerbron y Pwyllgor wedi'i esemptio.

(ii) Nid oes rhaid dilyn Camau Dau a Thri yn y drefn honno. Er ei bod yn bosibl i Aelod sy'n dal i fod yn anfodlon ar ôl ymyriad yr Aelod Eiriolwr ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad ofyn i'r mater gael ei atgyfeirio ar gyfer gwrandawiad gerbron y Pwyllgor, mae hefyd yn bosibl i'r mater gael ei atgyfeirio'n uniongyrchol at y Pwyllgor heb gael ei gyflwyno i'r Aelod Eiriolwr ar gyfer Hyfforddiant a Datblygiad yn gyntaf, ar yr amod bod Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau'n cytuno.

(iii) Nod y Weithdrefn hon yw ceisio datrys cwynion ynghylch Aelodau'n gyflym ac yn effeithiol. Nid oes unrhyw beth yn y weithdrefn hon yn atal swyddog nac Aelod rhag cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon bod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ar unrhyw adeg cyn bod Cam Dau (yn achos Aelod) neu Gam Tri (yn achos swyddog neu Aelod) o'r Weithdrefn yn cael ei gychwyn.

Nid yw'r Protocol hwn wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio gan Aelodau o'r Cyhoedd. Os ceir cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag ymddygiad swyddog neu ymddygiad Aelod, yna dylai'r gŵyn honno ddilyn prosesau arferol, naill ai trwy broses gwynion yr Awdurdod mewn perthynas â

swyddog neu drwy gyflwyno'r mater i'r Swyddog Monitro a/neu'r Ombwdsmon mewn perthynas ag Aelod.